action for children

Esgeuluso'r mater

effaith, achosion ac ymatebion i esgeuluso plant yn y DU

Gweithredwch dros Blant
www.actionforchildren.org.uk

as long as it takes

Cyflwyniad

Esgeuluso plant yw'r math mwyaf cyffredin o gam-drin plant yn y DU heddiw. Mae'n amddifadu plant o'r plentyndod y maent yn ei haeddu – sy'n hawl iddynt – ac yn gadael teuluoedd toredig, dyheadau chwilfriw a thrallod ar ei ôl. Ac, er ein bod yn gwybod mwy nag erioed o'r blaen am achosion a chanlyniadau esgeuluso, hwn yw'r rheswm pennaf o hyd dros yr angen i amddiffyn plant. Mae o fewn ein gallu, fel cymdeithas, i newid hyn.

Mewn ymateb i'r angen aruthrol hwn, yn Hydref 2009, lansiwyd ymgyrch benodol gan Gweithredu dros Blant i hybu ymwybyddiaeth o esgeuluso plant ac i godi arian i fynd i'r afael ag ef yn uniongyrchol. Yn ystod ein hymgyrch, rydym wedi siarad â phobl o groestoriad eang o gymdeithas i ddarganfod beth maent yn ei wybod am esgeuluso, eu barn amdano, a sut maent yn ymateb iddo. Rydym wedi ymgynghori â'r cyhoedd, gweithwyr gofal plant proffesiynol fel nyrsys a gweithwyr mewn meithrinfeydd, yr heddlu, gweithwyr cymdeithasol a'r plant eu hunain. Mae'r canlyniadau wedi bod yn syfrdanol, hyd yn oed i ni. Mae esgeuluso plant yn digwydd ym mhobman, ac nid yw ein hymateb ar y cyd yn ddigon da.

Rydym hefyd wedi gweld bod diffyg o ran adolygu syml, ystyrlon ar ganfyddiadau gan gyrff allanol ynghylch esgeuluso: diffiniadau o'r mater a sut mae'n ymddangos yn ymarferol; tueddiadau yn y DU; effeithiau esgeuluso ar blant, pobl ifanc, teuluoedd, sefyllfaoedd cymdeithasol a chymunedau; y mathau o ymateb sy'n fwyaf priodol a'r rhan y mae asiantaethau'n ei chwarae yn hynny; ac – yn hollbwysig – bylchau mewn gwybodaeth ac yn y ddarpariaeth o wasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn dod â'r wybodaeth a'r dystiolaeth bresennol at ei gilydd am y tro cyntaf.

Er mwyn mynd i'r afael ag esgeuluso, ac achub y miloedd o blant sy'n profi ei effeithiau dinistriol bob un diwrnod, mae taer angen dull clir ac integredig o weithredu. Rhaid i'r dull hwn gwmpasu'r chwe maes allweddol a ganlyn:

Rolau'r tadau

Mae ymchwil yn dangos bod plant sydd â thadau sy'n ymwneud yn helaeth â nhw'n tueddu i fod â llai o broblemau ymddygiadol, cyflawniad addysgol uwch a mwy o hunan-barch a bodlonrwydd bywyd – ymysg llawer o fuddion eraill.1 Lle mae'n briodol, rhaid annog a helpu tadau i roi cymorth gwell i'w plant. Mae'n ymddangos bod y farn gyhoeddus ar y blaen i bolisi llywodraeth ynghylch cymorth i deuluoedd a rôl tadau, gan fod saith o bob 10 (70%) yn cytuno (a 42% yn cytuno'n gryf) fod cymdeithas yn rhoi mwy o werth ar berthynas y plentyn â'i fam nag ar ei berthynas â'i dad; bron chwech o bob 10 (59%) yn cytuno bod cymdeithas yn rhagdybio bod mamau'n llesol i blant, a bod rhaid i dadau brofi hynny; a saith o bob 10 (70%) yn cytuno (a 50% yn cytuno'n gryf) y dylid bod ag ymagwedd 'dim goddefgarwch' os na fydd tadau'n ymgymryd â'u cyfrifoldebau rhianta.2.[2]

Targedu teuluoedd

Ceir tystiolaeth gynyddol o ymchwil am y mathau o gymorth sy'n gweithio orau i helpu teuluoedd lle mae plant yn cael eu hesgeuluso neu mewn perygl o hynny. Cafwyd gwerthusiadau o gynlluniau fel Cychwyn Cadarn, sy'n cynnwys amryw o wasanaethau cymorth i blant a theuluoedd (er enghraifft, mewn un arolwg, cafodd arolygwyr mai dim ond un ym mhob 10 ohonynt a oedd heb fod yn effeithiol, o gymharu â 57% y cafwyd adborth 'cadarnhaol iawn' amdanynt a 32% a ddisgrifiwyd fel rhai 'digonol').3 Mae angen mwy o dystiolaeth o'r math hwn.

Iechyd y cyhoedd ac atal

Cafwyd bod ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus yn effeithiol iawn mewn meysydd eraill (er enghraifft, mae treial rheoledig ar ymgyrch hysbysebu ar y teledu yn www.actionforchildren.org.uk canolbarth a gogledd Lloegr yn dangos y gallai ymgyrchoedd yn y cyfryngau torfol beri newid mewn ymddygiad. Roedd yr ymgyrch yn effeithiol wrth leihau mynychder ysmygu tua 1.2% dros 18 mis).4 Yn ogystal â thynnu sylw at y rhan y mae pob un ohonom yn ei chwarae wrth fynd i'r afael ag esgeuluso, byddai ymgyrchoedd tebyg ar y mater hwn yn gallu ei leihau a hyd yn oed ei atal rhag digwydd.

Barn rhieni a gofalwyr

Mae angen i ni ddeall mwy am y ffordd y gellir annog rhoddwyr gofal i ofyn am gymorth heb ofni ôl-effeithiau mawr, fel cymryd eu plant o'u gofal ar unwaith. Bydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu gwasanaethau cymorth y mae teuluoedd yn teimlo'n ddiogel wrth fynd atynt heb fod ag ofn.

Barn plant

Er bod rhywfaint o waith wedi'i wneud i geisio deall y ffordd orau i alluogi plant i ofyn am gymorth, mae'r darlun yn aneglur. Er enghraifft, mewn astudiaeth o brofiadau pobl ifanc o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol gan eu rhieni, cafwyd bod pobl ifanc yn dymuno cysylltu ag oedolion, athrawon er enghraifft, i gael cymorth ond eu bod yn pryderu ynghylch cael gormod o ymyrraeth yn eu bywyd gartref.5 Ar y llaw arall, mae ymchwil i farn plant am newid yn eu teuluoedd wedi darganfod hefyd mai dim ond dau y cant o blant a siaradodd â chwnselydd a dau y cant ag athro yn yr wythnosau cyntaf wedi i'w rhieni wahanu.6 Rhaid gwneud mwy i bennu ffyrdd i gymell plant i ofyn am gymorth yn uniongyrchol.

Deall graddau'r esgeuluso

Mae angen i ni gael ciplun rheolaidd o raddau'r esgeuluso – a'r ymateb ar y cyd iddo – er mwyn deall a yw'n gwella neu'n gwaethygu.

Fel rhan o'n hymgyrch 'Gweithredwch dros blant' yn erbyn esgeuluso, rydym wedi ymrwymo i rannu'r adroddiad hwn a helpu i lenwi'r bylchau mewn gwybodaeth y gwyddom amdanynt. Mewn partneriaeth â Phrifysgol Stirling, rydym hefyd wedi ymrwymo i gynnal adolygiad blynyddol o esgeuluso a'r ymateb iddo, ac i chwilio am gyllid ar gyfer canolfan arbenigedd ar esgeuluso plant er mwyn dal i ddatblygu ein dealltwriaeth ohono. Yn bwysicaf oll, byddwn yn defnyddio canfyddiadau yn ein gwaith ac yn gwneud popeth yn ein gallu i ddylanwadu ar y cyhoedd ac ar lunwyr polisi fel ei gilydd i wella'r ffordd o ddelio ag esgeuluso plant yn y DU.

Gwaetha'r modd, er bod ein dealltwriaeth o esgeuluso ar gynnydd, mae gormod o lawer o blant yn dal i ddioddef canlyniadau esgeuluso o ddydd i ddydd. Mae taer angen polisïau a gwasanaethau cenedlaethol a lleol i unioni'r sefyllfa a gweithredu mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion plant a'u teuluoedd ac yn gwella eu bywydau.

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn ar ran Gweithredu dros Blant gan Cheryl Burgess, cymrawd ymchwil a Brigid Daniel, Athro Gwaith Cymdeithasol, ym Mhrifysgol Stirling. Mae gan y ddwy ohonynt brofiad o ymchwil ac ymarfer mewn gwaith cymdeithasol i blant a theuluoedd ac mae Brigid wedi ysgrifennu'n helaeth am esgeuluso plant a gwrthsafiad mewn plentyndod.



Beth yw esgeuluso plant?

Mae esgeuluso'n fath pwysig o gam-drin plant yn y DU heddiw. Caiff plentyn ei esgeuluso pan na fydd yr oedolion sy'n gofalu amdano'n darparu'n ddigonol ar gyfer ei anghenion.

Gallai hyn ddigwydd mewn un neu ragor o'r agweddau hyn ar fywyd y plentyn:

- gofal dyddiol sylfaenol: bwyd, dillad, cysgod a chynhesrwydd
- diogelwch, gofal iechyd a sefydlogrwydd
- cynhesrwydd emosiynol
- ysgogiadau
- canllawiau a therfynau

Mae ein dealltwriaeth o esgeuluso plant yn datblygu dros amser wrth i ni gymryd i ystyriaeth y newid yn ymagwedd cymdeithas at ofal plant, y datblygiad yn nisgwyliadau rhieni a gwahanol syniadau diwylliannol. Yn gyffredinol, esgeuluso plant yw diffyg neu fethiant yn y berthynas ofal.[7] Gallai hyn ddigwydd pan fydd rhiant neu ofalwr yn caniatáu i'w blentyn gael niwed difrifol ar un achlysur, neu'n methu â gofalu'n ddigonol am ei blentyn dros gyfnod hir, a allai arwain at ddioddef 'niwed cronnol' gan y plentyn.

Rhaid deall esgeuluso plant yn ei ystyr ehangaf – lle nad yw'r plentyn yn cael diwallu ei anghenion yn y meysydd uchod, a lle y bydd hynny'n debygol o gael effaith niweidiol ar ei iechyd, datblygiad a lles. Wrth gwrs, mae esgeuluso plant ar ei ffurf fwyaf eithafol, yn enwedig esgeuluso sy'n arwain at farwolaeth plentyn, yn sicr o gipio penawdau'r newyddion. Fodd bynnag, mae llawer o blant hefyd sy'n cael eu hesgeuluso mewn ffordd lai gweladwy. Mae llawer ar hyn o bryd nad ydynt yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen i wella eu sefyllfa. Er mwyn gwella cyfleoedd bywyd nifer mawr o blant, mae angen mynd i'r afael â'r broblem hon ar fyrder.

Diffiniad llywodraeth Lloegr o esgeuluso plant yw:

Methiant parhaus i ddiwallu anghenion corfforol a/neu seicolegol y plentyn, sy'n debygol o arwain at amharu difrifol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gallai ddigwydd pan fydd rhiant neu ofalwr yn methu â darparu bwyd, cysgod neu ddillad digonol, yn methu ag amddiffyn y plentyn rhag niwed corfforol neu berygl, neu'n methu â sicrhau mynediad at ofal neu driniaeth feddygol briodol. Gallai hefyd gynnwys esgeuluso anghenion emosiynol sylfaenol y plentyn neu ddiffyg ymateb iddynt'

Tueddiadau

Esgeuluso plant yw'r math o gam-drin sydd wedi'i gofnodi amlaf yn y byd datblygedig dros y 10 mlynedd diwethaf.[8] Dyma'r prif reswm dros roi enwau plant ar gofrestrau amddiffyn plant yn y DU, a'r unig reswm gan amlaf ond ar y cyd weithiau â math arall o gam-drin.

Yn Lloegr

Yn Lloegr, roedd 17,200 o'r 39,100 o blant (43.5%) a oedd ar gofrestr yn y flwyddyn hyd ddiwedd Mawrth 2010 wedi'u cofnodi oherwydd esgeuluso, fel y prif reswm neu ran o'r rheswm

Yn yr Alban

Yn yr Alban dros yr un cyfnod, roedd 1,098 o blant wedi'u rhoi ar gofrestr oherwydd esgeuluso allan o gyfanswm o 2,518 o blant (43.6%)

Yng Nghymru

Yng Nghymru, roedd 1,355 o blant o blith 2,730 (49.6%) wedi'u rhoi ar gofrestrau yn rhannol neu'n llwyr oherwydd esgeuluso

Yng Ngogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon yn y flwyddyn hyd ddiwedd Mawrth 2009, roedd 1,234 allan o 2,488 o blant (49.5%) wedi'u rhoi ar gofrestrau yn rhannol neu'n llwyr oherwydd esgeuluso[9]

Mae cynnydd cyson wedi bod yn nifer y plant sydd ar gofrestrau oherwydd esgeuluso yng Ngogledd Iwerddon a chynnydd bach yng Nghymru, er bod y nifer yn yr Alban wedi gostwng 150 ers Mawrth 2009. Yn Lloegr, mae'r nifer wedi bod yn codi fesul 1,000 o blant y flwyddyn yn fras, er bod dull newydd o gasglu ystadegau wedi'i gyflwyno eleni, felly rhaid trin y ffigur hwn gyda gofal.

Yn ogystal â hyn, mae ffigurau ar gael yn awr ar gyfer plant sydd wedi'u hatgyfeirio at wasanaethau cymdeithasol yn Lloegr y credir eu bod 'mewn angen'. Roedd 375,900 o blant 'mewn angen' ar 31 Mawrth 2010, a 39 y cant ohonynt wedi'u hatgyfeirio am resymau sy'n ymwneud â cham-drin neu esgeuluso.[10] O ran cymharu â gwledydd tramor, gan fod ystadegau'n cael eu casglu mewn gwahanol ffyrdd, mae'n anodd tynnu cymariaethau clir rhwng y DU a gwledydd eraill ynghylch nifer yr achosion o esgeuluso plant.

Mae llawer mwy o blant na hyn yn cael eu hesgeuluso ond bod eu sefyllfa heb ei chydnabod. Er nad ydym yn sicr o nifer y plant yn y DU a allai fod wedi'u hesgeuluso, mae astudiaethau'n awgrymu bod hyd at 10 y cant o'r holl blant (hynny yw, bron 1.5 miliwn) yn y DU wedi'u hesgeuluso mewn rhyw ffordd.[11]

Pam mae esgeuluso plant yn digwydd?

Gall nifer o amgylchiadau ddylanwadu ar allu rhiant i ofalu am ei blentyn. Mae ymchwil a phrofiad y rheini sy'n gweithio gyda phlant wedi rhoi mwy o ddealltwriaeth i ni o'r rhesymau y gallai plentyn fod heb gael gofal digonol, ac o'r sefyllfaoedd byw sydd y tu ôl i hyn.

Nid yw'r rhesymau hyn wedi newid dros y blynyddoedd – ffaith drist. Mae'r mwyafrif llethol o deuluoedd yn gofalu'n dda am eu plant er gwaethaf gwahanol anawsterau, ond mae cyfuniad o'r canlynol yn gallu creu mwy o berygl o esgeuluso plant:

- **rhesymau cymdeithasol (fel tlodi, tai gwael, glanweithdra gwael ac anhawster wrth gael mynediad at wasanaethau lleol cymorth i deuluoedd**)
- **rhesymau teuluol (er enghraifft, rhieni neu ofalwyr sydd heb eu magu'n gadarnhaol eu hunain ac yn trosglwyddo'r profiadau negyddol hyn i'w plant**)
- **amgylchiadau personol y gofalwr unigol (er enghraifft, problemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau neu fyw gyda thrais domestig**)

Yn ogystal â hyn, mae'n bosibl na fydd digon o ddealltwriaeth ymarferol neu emosiynol gan ofalwr y plentyn i roi gofal da – mae esgeuluso plant yn ganlyniad yn aml i anallu i ofalu yn hytrach nag amharodrwydd.

Er na fydd yr amgylchiadau uchod yn arwain o reidrwydd at esgeuluso'r plentyn, gallant ei gwneud yn fwy tebygol i'r esgeuluso ddigwydd, ac mae rhai o'r 'ffactorau risg' uchod yn gallu arwain at eraill yn eu tro.

Mae astudiaethau'n awgrymu bod hyd at 10 y cant o blant y DU yn cael eu hesgeuluso – sef 1.5 miliwn bron

Mae Lisa, sy'n bum mlwydd oed, yn dod i'r ysgol yn hwyr ac ar ei phen ei hun. Mewn tywydd oer mae wedi bod yn gwisgo siaced denau a hen trainers ac mae'n oer iawn. Mae arni eisiau bwyd ac yn dweud ei bod yn cael arian i brynu bar o siocled ar ei ffordd i'r ysgol. Bydd Lisa yn ymddangos ei bod mewn breuddwyd yn y dosbarth – heb y gallu i ganolbwyntio neu gymryd diddordeb yng ngweithgareddau'r ystafell ddosbarth. Mae Lisa yn ei chael yn anodd gwneud ffrindiau am ei bod mor ddistaw a thawedog ac yn ei chael yn anodd rhyngweithio â phlant eraill. Nid yw'n dweud fawr ddim am ei theulu neu ei bywyd gartref.

Hanes Annie

Fy enw yw Annie ac rwy'n 18 oed. Rwy'n byw gartref gyda fy mam a'm tad sydd ill dau'n gaeth i gyffuriau. Mae gen i dair chwaer ac un brawd, ond ni fyddaf yn gweld y ddau ieuengaf yn aml gan fod y ddau ohonynt wedi bod mewn gofal maeth am flynyddoedd.

Fi a roddodd wybod i'r gwasanaethau cymdeithasol am Mam, ac am fy mod wedi gwneud hynny ni fydd fy mrawd a'm chwaer yn dychwelyd adref byth. Rwy'n gwybod mai hynny sydd orau iddynt ond rwy'n teimlo'n drist am y peth. Oherwydd y bywyd yn ein cartref nid wyf yn eu nabod ac nid ydynt yn fy nabod i.

Pan oeddwn yn saith neu wyth, dechreuais gael fy mwlio yn yr ysgol – yn bennaf gan bobl a oedd yn dweud bod fy mam yn gaeth i gyffuriau. Rwy'n cofio mai fi oedd yr unig ferch yn y dosbarth a oedd yn cael ei bwlio fel hyn. Tua'r adeg hon hefyd y cawson ni ein gwahanu oddi wrth ein rhieni am y tro cyntaf. Digwyddodd hyn pan oedd Mam wedi bod yn llawn effaith cyffuriau a'm chwaer fach wedi cropian a disgyn i lawr y grisiau. Roedd Mam a Dad yn lân am ychydig ac aethon ni adref, ond wnaeth hynny ddim para, a buan iawn yr oeddem yn ôl mewn gofal.

Nid oedd ein tŷ ni erioed yn lle braf i fyw; roedd angen ei bapuro a'i beintio a'i drwsio bob amser. Roedd yn anodd dod â ffrindiau adref oherwydd cyflwr y tŷ ac oherwydd fy mam a'm tad. Gallaf gofio cael beic un Nadolig a hwnnw'n un yr oedd fy nhad wedi'i ddwyn oddi wrth deulu arall. Rwyf hyd yn oed yn gallu cofio helpu fy mam i roi chwistrelliad iddi ei hun pan oeddwn tua 15. Gwnes i hynny i'w thawelu a gwneud iddi deimlo'n well.

Rwy'n teimlo cywilydd am fy mywyd. Nid wyf wedi teimlo fy mod mor bwysig â phobl eraill – rwy'n teimlo'n fach ac fy mod 'ar waelod y pentwr'. Weithiau byddaf yn tynnu gwallt o'm pen ac yn torri fy mreichiau â bylb golau os byddaf dan straen mawr.

Sut byddwn yn gweld bod plentyn wedi'i esgeuluso?

Un o'r anawsterau wrth adnabod plant sy'n cael eu hesgeuluso yw nad oes safon benodol ar gyfer beth yw 'gofal derbyniol'.

Mae gofal plant yn amrywio rhwng gofal sy'n rhagorol yn un pen a gofal sy'n amlwg yn annerbyniol, a hyd yn oed yn angheuol o bosibl, yn y pen arall, gydag ystod o ofal o natur amhenodol rhwng y ddau. Mae'r ddau eithaf yn hawdd eu hadnabod ond mae'n fwy anodd i'r cyhoedd a hyd yn oed gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion a lleoliadau iechyd benderfynu a yw ansawdd gofal y plentyn yn ddigon isel i gyfiawnhau cymryd camau pendant, fel cysylltu â gwasanaethau cymdeithasol.

Yn yr adroddiad Action for Children *Child neglect: experiences from the frontline*,[12] a gwblhawyd yn 2009, tynnwyd sylw at yr hyn yr oedd staff ysgolion a gwasanaethau iechyd yn eu hystyried yn arwyddion rhybudd posibl bod plentyn yn cael ei esgeuluso.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- bod y plentyn yn fudr neu mewn dillad gwael
- bod ar y plentyn eisiau bwyd
- bod y plentyn yn aml yn hwyr i'r ysgol neu ddim yn cael ei gasglu'n brydlon
- bod ymddygiad y plentyn yn peri pryder
- nad yw'r plentyn yn cael triniaeth feddygol neu'n cael ei hebrwng i gael archwiliadau iechyd
- bod cartref y plentyn yn ymddangos yn anniogel neu mewn cyflwr gwael
- pryderon ynghylch gallu gofalwr i ofalu am ei blentyn a rhoi goruchwyliaeth dda

Nid yw bob amser yn bosibl sylwi bod plentyn yn cael ei esgeuluso o'i olwg allanol a gall esgeuluso ddigwydd, mewn ffordd lai amlwg weithiau, mewn teuluoedd cefnog. Nid mewn teuluoedd tlawd neu deuluoedd ar ymylon cymdeithas yn unig y caiff plant eu hesgeuluso. Gallai ymddangos bod plentyn yn cael gofal da o safbwynt materol ond gallai ddioddef oherwydd mathau o esgeuluso sy'n llai amlwg. Er enghraifft, gallai gael ei adael heb oruchwyliaeth tra bydd ei ofalwyr yn gweithio neu gallai gael ei amddifadu o sylw ei ofalwyr am fod yr oedolion yn rhoi eu gyrfa eu hunain neu anghenion eraill yn gyntaf ac yn rhy flinedig neu wedi ymgolli gormod i ymateb yn ddigonol i'w plant.

Mewn gwaith ymchwil i Gweithredu dros Blant yn 2009,[13] pan holwyd 1,000 o oedolion, dangoswyd nad oedd y cyhoedd yn deall yn glir beth yw esgeuluso a'u bod yn ansicr o sut a pha bryd i weithredu os oeddent yn poeni bod plentyn yn cael ei esgeuluso. Ac eto mae astudiaethau eraill wedi dangos bod pobl yn alluog iawn i adnabod arwyddion rhybudd o esgeuluso plant yn reddfol.[14]

Mae gan Steven hanes o gael ei esgeuluso er pan oedd yn ifanc ac mae rhai o effeithiau hynny'n dod i'r amlwg wrth iddo drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Bydd yn absennol o'r ysgol yn aml ar ôl cael salwch bach, mae'n ei chael yn anodd setlo i weithio yn yr ysgol ac nid yw'n gwireddu ei botensial addysgol. Mae ar gyrion grŵp o fechgyn sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol weithiau ond mae'n ei chael yn anodd gwneud ffrindiau agos. Mae'n mynd yn fwyfwy gelyniaethus tuag at athrawon ac yn fwy ymosodol wrth siarad â nhw ac mae'n ymddangos ei fod yn ei chael yn anodd ymddiried mewn oedolion, hyd yn oed y rheini sydd am ei helpu

Mae'n bosibl nad oes ganddynt ddigon o hyder i weithredu ar sail eu teimladau neu eu bod yn ansicr ynghylch sut bydd asiantaethau'n ymateb.

Dangosodd yr adroddiad Seen and now heard[15] gan Gweithredu dros Blant (2010) fod plant yn ymwybodol iawn eu hunain o blant eraill nad oedd yn derbyn gofal.

Yn ôl y plant rhwng wyth a 12 mlwydd oed a holwyd:

- roedd bron dwy ran o dair wedi gweld arwyddion o esgeuluso tybiedig mewn plant eraill
- ar gyfartaledd, roedd plant wedi gweld o leiaf dri phlentyn â rhai arwyddion o esgeuluso y flwyddyn honno
- dywedodd mwy nag un ym mhob 10 eu bod wedi gweld arwyddion o esgeuluso tybiedig naw gwaith yn y flwyddyn honno'n unig
- mae plant mor ifanc ag wyth oed yn gweld arwyddion o esgeuluso yn eu cyfoedion

Felly er bod plant, oedolion a gweithwyr proffesiynol yn gallu adnabod arwyddion esgeuluso, mae pobl yn ei chael yn wirioneddol anodd penderfynu pa gamau i'w cymryd yn ei gylch. Mae penderfyniadau ynghylch cysylltu ag asiantaethau statudol yn gallu bod yn agored hefyd i ddylanwad canfyddiadau bod diffyg gweithredu ar ran gwasanaethau cymdeithasol ar ôl eu hysbysu, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae nifer mawr o deuluoedd 'mewn angen'. Mae hyn yn digwydd yn amlach byth wrth i adnoddau a gwasanaethau fynd yn llai. Mae hyd yn oed athrawon ac ymwelwyr iechyd sy'n dod â phlant i sylw gweithwyr cymdeithasol yn dweud bod hyn yn achosi rhwystredigaeth iddynt.[16]

Am nad oes digon o adnoddau a gwasanaethau i helpu pob plentyn yn ôl ei angen, rhaid pennu blaenoriaethau, a bydd teuluoedd wedi cyrraedd lefel uchel o argyfwng yn aml cyn y gall gweithwyr cymdeithasol ymyrryd. Mewn rhai achosion, mae asiantaethau gwaith cymdeithasol wedi cael eu cloffrwymo gan y diffiniadau cyfyng o esgeuluso sy'n ofynnol er mwyn cymryd camau statudol neu gyfreithiol, fel y rhai mewn gweithdrefnau amddiffyn plant a gorchmynion goruchwylio.[17]

Er gwaethaf y rhwystrau hyn, ymyrryd yn gynnar pan fydd plentyn neu deulu mewn trafferthion fydd y ffordd orau i wneud gwahaniaeth mewn llawer o achosion. Mae tystiolaeth gynyddol bod cymorth yn gallu bod yn effeithiol os caiff ei gynnig i deuluoedd yn gynnar ar ôl sylwi ar anawsterau.[18]

Gall ddod â newidiadau yn ffordd o fyw teuluoedd ac atal dioddef diangen gan blant. Mae hefyd yn fwy costeffeithiol o ran lleihau'r angen am wasanaethau drutach yn ddiweddarach. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried ymyrraeth gynnar yn 'ateb sydyn' gan ei bod yn bosibl y bydd angen cymorth parhaus ar gyfer rhai teuluoedd.[19]

Mae plant mor ifanc ag wyth oed yn gweld arwyddion o esgeuluso yn eu cyfoedion

Mae ymchwil yn dangos y gallai rhai grwpiau o blant fod mewn mwy o berygl o gael eu hesgeuluso, er nad yw hyn yn gyfystyr ag awgrymu bod cysylltiad uniongyrchol bob tro – mae ffactorau cymhleth o fewn y grwpiau hyn yn debygol o fod ar waith.

Y grwpiau yw:

- plant wedi'u geni i famau sy'n camddefnyddio sylweddau, sydd ag anawsterau iechyd meddwl sylweddol neu sy'n dioddef oherwydd cam-drin domestig
- babanod sydd â phwysau geni isel, sy'n gallu arwain at broblemau cynnar wrth sefydlu cwlwm agosrwydd
- plant sydd ag anableddau
- plant y mae eu rhieni neu ofalwyr yn ei chael yn anodd gofalu amdanynt – os ydynt yn cael eu gweld fel rhai sy'n gofyn gormod neu'n dawedog efallai

Nid yw'r rôl bosibl sydd gan dadau wrth fagu eu plant neu ddarparu cymorth sy'n helpu i amddiffyn rhag esgeuluso yn cael ei chydnabod yn aml

Mae ymchwil ac ymarfer ynghylch esgeuluso wedi tueddu i ganolbwyntio'n bennaf ar famau – gan adlewyrchu rhagdybiaethau cymdeithasol mai mamau sy'n bennaf cyfrifol am fagu plant. Prin iawn yw'r wybodaeth am rôl tadau, heblaw mewn cysylltiad â'r peryglon i blant sy'n byw mewn teuluoedd gyda dynion sy'n dreisgar wrth eu partneriaid. Nid yw'r rôl bosibl sydd gan dadau wrth fagu eu plant neu ddarparu cymorth sy'n helpu i amddiffyn rhag esgeuluso yn cael ei chydnabod yn aml.

Yn gyffredinol, os oes arwyddion bod problemau difrifol yn y berthynas rhwng y gofalwr a'r plentyn neu os gwelir unrhyw un o'r arwyddion rhybudd sydd wedi'u rhestru ar ddechrau'r adran hon, mae'n bosibl bod y plentyn yn cael ei esgeuluso, a dylid cymryd camau i hysbysu asiantaeth fel ei ysgol, meddyg teulu neu weithiwr cymdeithasol.



Hanes Sunita

Byddwn yn yfed os oeddwn yn drist, ac yn yfed os oeddwn yn hapus. Byddwn yn yfed ac yfed ac ni fyddwn yn cyfaddef bod gen i broblem ag alcohol o gwbl.

IRoeddwn yn mynd â'm mab i'r ysgol, roeddwn yn gwneud yn iawn o ran dilyn y drefn, ond wedi iddo fynd i'r gwely byddwn yn yfed. A doeddwn i ddim yn sylweddoli fy mod yn ei roi mewn perygl wrth yfed a pheidio â bod yn effro i'w anghenion. Ar ôl yfed, ac yfed nes colli ymwybyddiaeth, ni fyddwch yno i gwrdd â'i anghenion.

Fyddwn i byth yn mynd ag ef allan. Roeddwn yn arfer eistedd yn yr ardd gyda phwll padlo ac roeddwn wedi'i adael yn llawn dŵr, a oedd yn beryglus iawn, oherwydd dim ond plentyn bach oedd e a byddai wedi gallu disgyn i mewn a byddai rhywbeth wedi gallu digwydd.

Yn anffodus, fe gafodd niwed, a finnau, gan ddyn. Chafodd hwnnw mo'i gyhuddo, ond roedd y dystiolaeth yn amlwg. Roedd y ddau ohonom wedi cael ein brifo, roedd gan fy mab farc ar ei lygad ac roeddwn i'n ddu-las hefyd. Felly roedd yn amlwg fy mod i wedi bod yn anghyfrifol a gadael i rywun ddod i mewn a fyddai'n gallu gwneud niwed i blentyn a niwed i mi. Byddai'r canlyniad wedi gallu bod yn waeth o lawer.

Rheswm arall oedd y cefndir a oedd gen i. Roedd fy nhad yn alcoholig ond nid oedd erioed wedi gwneud unrhyw niwed i ni. Ond roedd yn alcoholig yn sicr a fyddwch chi ddim yn sylwi ar effaith ddwfn alcoholiaeth nes i rywun dynnu'ch sylw ati a chithau'n cydnabod hynny.

Beth yw effeithiau esgeuluso ar blant?

Gall y canlyniadau o esgeuluso ar blentyn fod yn bellgyrhaeddol. Yn ogystal â gwneud bywyd y plentyn yn ddigalon, bydd y profiad o esgeuluso'n gallu effeithio hefyd ar bob agwedd ar ei ddatblygiad. Mae hefyd yn debygol o ddylanwadu ar y perthnasoedd y bydd yn eu creu ag eraill pan fydd yn ifanc ac yn hŷn ac o effeithio ar y ffordd y mae'n magu ei blant ei hun.[20]

Yn yr achosion mwyaf eithafol, gall esgeuluso arwain at farwolaeth plentyn neu fod yn un o achosion marwolaeth sydd heb fod yn ddamweiniol.

Bydd y prif feysydd lle gwelir effaith ar y plentyn yn amrywio yn ôl pa mor gynnar y mae'r esgeuluso'n digwydd, ond mae esgeuluso'n gallu creu effeithiau ar hyd oes y plentyn, a gallai arwain at y canlynol:

Effeithiau ar iechyd a'r corff

- effaith ar ddatblygiad cynnar yr ymennydd sy'n dylanwadu ar y ffordd y mae plentyn yn ymateb i straen a sefyllfaoedd eraill sy'n ei ysgogi pan yw'n ifanc ac yn hŷn
- y plentyn yn rhy ysgafn (neu'n rhy drwm o lawer), yn cael heintiau o hyd, yn hwyr yn datblygu galluoedd fel cerdded, yn flinedig ac yn llesg ac yn cael problemau o ran defnyddio'r toiled
- anawsterau gwybyddol fel oedi wrth ddatblygu iaith, gallu deallusol gwael ac anallu i ganolbwyntio neu fynegi teimladau
- anafiadau corfforol o ganlyniad i ddamweiniau, oherwydd diffyg gofal neu oruchwyliaeth

Effeithiau emosiynol

- effaith bosibl ar sefydlu cwlwm agosrwydd rhwng y plentyn a'r rhoddwr gofal gan arwain at broblemau o ran ymlyniad ansicr
- lefel isel o hunan-barch, gorbryder ac iselder, cydymffurfio gormodol neu ddicter/gelyniaeth
- anawsterau wrth geisio cefnogaeth emosiynol gan oedolion

Effeithiau cymdeithasol

- arwahanrwydd cymdeithasol oherwydd anawsterau wrth ffurfio a chadw cyfeillgarwch, cael ei fwlio neu gael ei anwybyddu gan gyfoedion
- allgáu cymdeithasol sy'n arwain at ymgysylltu â grwpiau o blant sy'n amlygu ymddygiad gwrthgymdeithasol neu a allai fwlio eraill
- anawsterau ymddygiad sy'n gallu ei gwneud yn anodd ymdopi ag amgylchedd yr ysgol
- presenoldeb a chyrhaeddiad gwael yn yr ysgol fel nad yw'r plentyn yn gwireddu ei botensial

Effeithiau diweddarach: mewn glasoed ac fel oedolyn

- ymgymryd ag ymddygiad peryglus fel camddefnyddio sylweddau, troseddu a pherthnasoedd lle mae camfanteisio rhywiol[21]
- hunan-niwed a cheisio cyflawni hunanladdiad
- anawsterau wrth ffurfio perthnasoedd, dod i gysylltiad â phartneriaid treisgar a mabwysiadu arddulliau rhianta a allai drosglwyddo problemau tebyg i'w plant eu hunain

Plant sy'n gwrthsefyll esgeuluso

Mae rhai plant sydd wedi profi esgeuluso yn y gorffennol ond bod hynny heb effeithio cymaint arnynt ag ar blant eraill a gallant wrthsefyll llawer o effeithiau esgeuluso oherwydd 'ffactorau amddiffynnol' sy'n gallu helpu i wneud iawn am y caledi y maent wedi'i ddioddef. Weithiau bydd cymorth ar gael oddi wrth deulu estynedig y plentyn, ei ffrindiau a dylanwadau yn y gymuned, sy'n gallu cynnig profiadau amddiffynnol iddo, neu gall gweithwyr proffesiynol drefnu iddo gael y profiadau hynny. Weithiau bydd angen cymorth ychwanegol i gynnal cymorth anffurfiol. Ni ellir tanbrisio'r pwysigrwydd o ddatblygu perthnasoedd hirsefydlog gan blant â staff gofal cymdeithasol, athrawon a chyfeillachwyr neu fentoriaid gwirfoddol y gallant ymddiried ynddynt.

Ni ellir tanbrisio'r pwysigrwydd o ddatblygu perthnasoedd hirsefydlog gan blant â'r bobl sy'n eu cynorthwyo

Mae Tom yn rhiant ifanc sy'n byw ar ei ben ei hun a heb fawr neb o ran teulu neu ffrindiau y gall droi atynt am gymorth. Mae'n dioddef oherwydd lefel isel o hunan-barch ac iselder. O fod heb gymorth, mae wedi'i chael yn anodd dod o hyd i swydd ran-amser ac mae'n byw ar incwm isel. Mae wedi cael ei arwahanu oddi wrth gymdeithas i raddau helaeth. O ganlyniad i'r ffaith ei fod yn teimlo'n isel a heb fawr neb i roi cymorth personol a chymdeithasol iddo, mae Tom yn ei chael yn anodd ymateb yn gynnes ac yn gariadus i'w blentyn a rhoi iddi'r sylw a'r ysgogiad y mae arni eu hangen.



Datblygiadau

Er bod esgeuluso'n fath pwysig o gam-drin plant, mae llai o waith wedi'i wneud i geisio ei ddeall nag yn achos mathau eraill o gam-drin. Y rheswm am hyn, o bosibl, oedd bod gennym lai o wybodaeth ynghylch pa mor gyffredin y mae, heblaw pan yw'n ddigon difrifol i arwain at ymchwiliad amddiffyn plant, a bod ansicrwydd ynghylch sut i gymryd camau yn ei erbyn. Efallai iddo gael ei ystyried yn fath llai difrifol o gam-drin. Mae'n amlwg bod angen helpu'r cyhoedd a staff mewn darpariaethau cyffredinol fel ysgolion a gwasanaethau iechyd i deimlo eu bod yn gallu hysbysu asiantaethau os ydynt yn pryderu am blentyn. Mae angen iddynt gredu y bydd camau'n cael eu cymryd i ymateb i'w pryderon. Gallai fod yn briodol i staff mewn gwasanaethau cyffredinol ddarparu cymorth uniongyrchol eu hunain i rai plant y credant eu bod yn profi mathau llai difrifol o gam-drin. Er enghraifft, o gael cymorth digonol, gall athrawon roi profiad cadarnhaol a chynhaliol i blant sy'n gallu helpu i wneud iawn am rai diffygion yn eu gofal, ac a allai gynnig rhagolygon cymdeithasol ac addysgol gwell iddynt yn y tymor hir.

> Mae gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn gallu helpu teuluoedd i ofalu am eu plant a chadw gwyliadwriaeth fel bod modd sylwi ar arwyddion o esgeuluso

Ymyrraeth gynnar a gwasanaethau cymorth i deuluoedd

Ledled y DU, mae nifer mawr o wasanaethau cymorth i deuluoedd, er enghraifft, y rheini sydd mewn canolfannau plant a theuluoedd, ac yn cael eu rhedeg gan wasanaethau cymdeithasol neu asiantaethau gwirfoddol. Byddant yn cynnig cymorth ymarferol, cymdeithasol ac emosiynol i blant a theuluoedd ac yn cynnal rhaglenni rhianta, yn cynnig cymorth addysgol i blant ac yn helpu teuluoedd i greu rhwydweithiau anffurfiol i helpu ei gilydd. Ceir cynlluniau hefyd fel y partneriaethau nyrs teulu sy'n cynnig cymorth i deuluoedd â phlant ifanc sydd heb gymorth fel arall, ac yn helpu i sefydlu cwlwm agosrwydd cryf rhwng y rhiant a'r plentyn. Mae cynlluniau o'r fath yn gallu helpu teuluoedd i ofalu am eu plant a chadw gwyliadwriaeth fel bod modd sylwi ar arwyddion o esgeuluso.

Mae adroddiad diweddar gan Graham Allen AS[22] yn amlinellu'r ddadl dros wasanaethau cymorth sy'n ymyrryd yn gynnar ac yn rhestru nifer ohonynt sydd, yn ôl tystiolaeth o ymchwil, yn gallu gwneud gwahaniaeth i deuluoedd. Mae adolygiadau o ymchwil hefyd yn dangos, yn ogystal â chynnwys y gwasanaethau, ei bod yr un mor bwysig iddynt gael eu rhedeg gan staff y mae gan deuluoedd berthynas ymddiriedus â nhw a'u darparu mewn modd empathig. Rhaid darparu ymyriadau ar gyfer teuluoedd yn ôl eu hangen ar adegau tyngedfennol ym mywyd y plentyn, ac mae'n bosibl y bydd angen iddynt barhau am gyfnod hir weithiau, ac mae angen i weithwyr proffesiynol gydweithio'n dda wrth ymwneud â theuluoedd.[23] Ni chafwyd penderfyniad eto ar ffyrdd posibl i ddarparu cyllid os yw gwasanaethau o'r fath i dyfu.

Rôl gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol

Rydym yn dysgu mwy am yr hyn y gellir ei gynnig i wneud gwahaniaeth ym mywyd plant a theuluoedd lle mae esgeuluso'n digwydd.

Rydym yn gwybod:

- ei bod yn hollbwysig ymgysylltu â theuluoedd yn gynnar, pan welir anawsterau'n gyntaf, ond nad mater syml o bosibl fydd helpu teuluoedd i wneud newidiadau hyd yn oed ar yr adeg hon – yn aml bydd problemau sylfaenol difrifol y mae angen eu datrys cyn y gellir cael newidiadau
- bod angen i weithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill allu adnabod y math o esgeuluso sy'n digwydd (er enghraifft, a yw'r rhoddwr gofal yn esgeuluso ei blentyn am ei fod yn anhrefnus, yn isel, dan anfantais economaidd neu am fod ganddo broblemau emosiynol eraill?)
- bod rhaid i weithwyr cymdeithasol ofalu eu bod yn edrych ar y teulu i gyd a sut maent yn ymwneud â'i gilydd – weithiau gall anghenion y rhieni gael eu rhoi o flaen anghenion y plant ac efallai y bydd angen cymryd camau'n fuan cyn i sefyllfa'r plentyn waethygu
- bod fframweithiau[24] ar gyfer asesu beth mae ar y plentyn ei angen, ond heb fod yn ei gael o ran gofal, a pha gymorth y mae ar y rhoddwr cymorth ei angen i ofalu am ei blentyn, yn helpu. Mae fframweithiau asesu a chynllunio o'r fath wedi helpu gweithwyr cymdeithasol i ganolbwyntio ar y math o gymorth y mae'n rhaid ei gynnig a pha asiantaeth a ddylai wneud hyn. Fodd bynnag, yn enwedig os yw cyllidebau'n dynn, ni chynigir cymorth yn ddigon cynnar ac weithiau ddim nes bod y sefyllfa mor eithafol fel bod y plentyn yn debygol o fod ag angen cael lleoliad gofal gan awdurdod lleol
- bod angen i weithwyr cymdeithasol a gweithwyr cymorth i deuluoedd gael digon o amser i gael cyswllt o ansawdd da â'r teulu a'r plentyn er mwyn meithrin ymddiriedaeth aelodau'r teulu a ffurfio perthynas weithio onest â nhw, fel y gellir eu herio a'u helpu i wneud newidiadau – mae angen trefnu gwasanaethau fel eu bod yn hybu perthynas o'r fath yn hytrach na'i thanseilio
- bod tystiolaeth yn dangos bod rhaid mabwysiadu amryw o strategaethau ar draws cymdeithas i atal a delio ag esgeuluso plant, a bod modd i ymyriadau cymorth i deuluoedd fod yn effeithiol os ydynt wedi'u targedu'n gywir a'u haddasu yn ôl amgylchiadau penodol y teulu
- bod adnabyddiaeth gynyddol o arwyddion esgeuluso ymhlith plant hŷn a rhai yn eu harddegau a bod syniadau'n cael eu datblygu ynghylch sut i'w wrthweithio
- bod rhaid darparu hyfforddiant parhaus, goruchwyliaeth effeithiol a'r gallu i ddarparu cymorth o ansawdd da i blant a'u teuluoedd gan yr holl asiantaethau sydd â staff sy'n ymwneud â maes esgeuluso plant

Pa fylchau sydd yn ein gwybodaeth? A oes bwriad i lenwi'r bylchau hyn?

Er bod ymchwil a phrofiadau'r rheini sy'n gweithio gyda phlant a esgeuluswyd yn ychwanegu at ein gwybodaeth, mae rhai meysydd lle mae angen mwy o ymchwil:

- **gweithio gyda thadau**

Mae angen ymchwilio ymhellach i rôl y tadau mewn teuluoedd lle mae plant wedi'u hesgeuluso. Hyd yn hyn, mae'r prif bwyslais wedi bod ar gyfrifoldeb y fam am esgeuluso plant, er bod dynion yn cael eu hystyried yn rhannol gyfrifol weithiau os yw'r esgeuluso wedi'i achosi gan ddiffyg goruchwylio ar y plentyn. Yn ôl un astudiaeth, nid yw'r pwyslais hwn ar famau'n cyd-fynd â barn y cyhoedd, sydd ar y blaen i bolisi llywodraeth o ran cymorth i deuluoedd a rôl tadau.[25] Yn yr ymchwil cafwyd bod:

- saith mam o bob 10 (68%) yn credu bod eu partner yn gystal rhiant â nhw
- saith o bob 10 (70%) yn cytuno (a 42% yn cytuno'n gryf) bod cymdeithas yn rhoi mwy o werth ar berthynas y plentyn â'i fam nag ar ei berthynas â'i dad
- bron chwech o bob 10 (59%) yn cytuno â'r datganiad bod cymdeithas yn rhagdybio bod mamau'n llesol i blant, a bod rhaid i dadau profi hynny
- saith o bob 10 (70%) yn cytuno (a 50% yn cytuno'n gryf) y dylid bod ag ymagwedd 'dim goddefgarwch' os na fydd tadau'n ymgymryd â'u cyfrifoldebau rhianta
- wyth o bob 10 o fenywod (80%) a mwy na chwech o bob 10 o ddynion (62%) yn cytuno bod tadau cystal â mamau am ofalu am blant

Mae nifer bach o astudiaethau ymchwil wedi ystyried rôl tadau ac a oedd cysylltiad rhwng eu presenoldeb ym mywyd y teulu a bod esgeuluso ar blant wedi parhau neu ddod i ben. Daeth rhai i'r casgliad y dylid annog tadau i ehangu eu rôl gefnogol yn y teulu a chymryd mwy o ran yn addysg eu plant hefyd. Mewn un astudiaeth yn benodol[26] cafwyd bod plant sydd â thadau sy'n ymwneud â nhw'n helaeth yn tueddu i fod â:

- gwell cyfeillgarwch â phlant sydd wedi ymaddasu'n dda
- llai o broblemau ymddygiadol
- lefel is o droseddoldeb a chamddefnyddio sylweddau
- cyflawniad addysgol uwch
- mwy o allu i ddangos empathi
- agweddau meddwl llai stereoteipaidd at ennill cyflog a gofal plant
- partneriaethau rhywiol mwy boddhaol fel oedolion
- lefel uwch o hunan-barch a bodlonrwydd bywyd

Byddai gwasanaethau cymorth i deuluoedd fel canolfannau teuluol hefyd yn gallu dod o hyd i ffyrdd i gynnwys tadau. Mewn astudiaeth yng Ngogledd Iwerddon yn 2003[27] gofynnwyd am farn tadau ynghylch sut y gallai canolfannau teuluol eu helpu i gymryd mwy o ran, a darganfod y byddai cael mwy o staff yn ddynion a rhedeg grwpiau i ddynion, ymysg pethau eraill, yn gwneud gwahaniaeth. Mae angen mwy o ymchwil i rôl tadau yng nghyd-destun esgeuluso plant a'u barn ynghylch beth fyddai o gymorth iddynt yn eu rôl rhianta.

- **cymorth wedi'i dargedu i deuluoedd – beth sy'n gweithio?**

Mae tystiolaeth gynyddol o ymchwil ynghylch y mathau o gymorth sy'n gweithio orau i helpu teuluoedd y mae eu plant mewn perygl o gael eu hesgeuluso. Cafwyd gwerthusiadau o fentrau fel Cychwyn Cadarn, sy'n cynnwys amryw o wasanaethau cymorth i blant a theuluoedd (er enghraifft, mewn un adolygiad, cafodd arolygwyr mai dim ond un ym mhob 10 a oedd heb fod yn effeithiol, o'i gymharu â 57% y cafwyd adborth 'cadarnhaol iawn' amdanynt a 32% a ddisgrifiwyd fel rhai 'digonol').[28] Cafwyd astudiaeth debyg o'r Bartneriaeth Nyrs Teulu, sef gwasanaeth ymweld
â'r cartref a ddarperir gan nyrsys yn ystod dwy flynedd cyntaf bywyd y plentyn, wedi'i anelu at famau tro cyntaf ar incwm isel.

Mae canlyniadau o astudiaethau'n dangos bod rhai rhaglenni hyfforddi rhieni, gweithwyr cymdeithasol mewn ysgolion, cymorth gan rwydweithiau cymdeithasol a defnyddio dulliau therapiwtig gyda rhieni a phlant yn gallu helpu, ond byddai'n fuddiol cael mwy o dystiolaeth. Rydym yn gwybod bod ymyrryd pan geir esgeuluso'n debygol o fod yn ddrud, gan alw am waith dwys, hirdymor ac amlweddog gan weithlu hyfedr.[29]

Er bod ymchwil yn parhau i'r mathau o gymorth i deuluoedd sy'n helpu rhieni i ofalu'n well am eu plant, mae angen gwneud rhagor er mwyn cael mwy o dystiolaeth o arferion da. Gellid datblygu'r gwaith hwn mewn sawl ffordd os trefnir i gyllid fod ar gael. Yn bwysicaf oll, mae angen casglu tystiolaeth o'r effeithiau hirdymor a geir ar blant ar ôl darparu cymorth i deuluoedd. Mae dulliau gwell o werthuso rhaglenni cymorth i deuluoedd ond mae angen mwy o'r gwerthusiadau hyn. Un peth sy'n sylfaenol bwysig i bob gwasanaeth cymorth, fodd bynnag, yw sefydlu perthnasoedd gweithio da â rhieni a phlant sy'n gadarn ac yn gyson.[30]

- **dulliau iechyd y cyhoedd ac atal**

Mae astudiaethau diweddar yn awgrymu y byddai dull sy'n hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy gyflwyno ymgyrchoedd hysbysrwydd ar y cyfryngau, tebyg i ymgyrchoedd gwrth-ysmygu a rhai i ostwng nifer y marwolaethau damweiniol ar ffyrdd ymysg plant, yn gallu bod o gymorth i adnabod achosion o esgeuluso'n gynnar. Er enghraifft, mae treial reoledig ar ymgyrch hysbysebu ar y teledu yng nghanolbarth a gogledd Lloegr yn dangos y gallai ymgyrchoedd torfol drwy'r cyfryngau fod â'r gallu i newid ymddygiad. Roedd yr ymgyrch yn effeithiol o ran gostwng mynychder ysmygu tua 1.2 y cant dros 18 mis.[31] Yn yr un modd, mae lefelau'r wybodaeth a'r ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud ag alcohol wedi newid yn ystod ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus torfol drwy'r cyfryngau:[32]

- ymwybyddiaeth o uned y 'neges am yfed synhwyrol' – wedi codi o 39% i 76% (1989–94)
- gwybodaeth am unedau mewn diodydd poblogaidd – 300% yn uwch (1989–94)
- asesu cywir gan bobl o'u hyfed eu hunain – 5% yn uwch (1990–94)

Yn yr un modd, byddai dulliau iechyd y cyhoedd o fynd i'r afael â'r ffactorau sydd â chysylltiad hysbys ag esgeuluso'n gallu helpu i atal esgeuluso rhag digwydd yn y lle cyntaf. Rydym yn deall mwy am y modd y gellid atal esgeuluso a mathau eraill o gam-drin plant, a chymaint yn well yw hi i blant os gellir dod o hyd i ffyrdd i atal esgeuluso rhag digwydd yn y lle cyntaf, yn hytrach na gorfod mynd â nhw oddi wrth eu teuluoedd a'u cartrefi yn y diwedd.

Mae dull iechyd y cyhoedd, tebyg i ymgyrchoedd i leihau nifer yr achosion o ganser y croen neu ddamweiniau ar ffyrdd, yn galw am ymrwymiad ariannol a gwleidyddol hirdymor ar draws adrannau llywodraeth i ariannu gwasanaethau sydd â'r amcan o leihau'r risgiau mewn teuluoedd y gwyddom bellach eu bod yn gwneud esgeuluso plant yn fwy tebygol.[33]

barn rhieni a gofalwyr am geisio cymorth

Mae angen i ni ddeall mwy am y modd y gellir annog rhoddwyr gofal i geisio cymorth heb ofni ôl-effeithiau mawr, fel mynd â'u plant o'u gofal ar unwaith. Mae rhywfaint o waith wedi'i wneud ar hyn. Rydym yn gwybod, er enghraifft, y gall rhieni deimlo'n bryderus ynghylch ymwneud â gwasanaethau gofal cymdeithasol a bod eu barn am gymorth a gynigir gan asiantaethau gwirfoddol yn fwy cadarnhaol weithiau.[34] Gellir teimlo ofn a chywilydd wrth ofyn am gymorth. Mae'r dystiolaeth yn brin o hyd ynghylch sut y gellir annog rhieni i ofyn am gymorth, er bod rhai rhieni'n gwneud hyn yn anuniongyrchol. Mae astudiaethau'n dangos bod llawer o deuluoedd yn brwydro yn erbyn trafferthion am gyfnod hir cyn gofyn am gymorth, ac y gallent fod yn llai tebygol wedyn o gael cymorth os gofynnant amdano eu hunain yn hytrach na chael eu hatgyfeirio gan wasanaeth.[35]

Bydd angen mwy o waith os ydym i ddatblygu gwasanaethau hygyrch, cefnogol y bydd teuluoedd yn teimlo'n ddiogel wrth fynd atynt. Mae ymchwil yn awgrymu ei bod yn bosibl y byddai ymwelwyr iechyd, er enghraifft, o fynd ynghylch y mater yn iawn, yn gallu gofyn cwestiynau i rieni a gofalwyr a allai eu helpu i ddatgelu eu pryderon eu hunain ynghylch sut maent yn gofalu am eu plant.[36]

barn plant ynghylch sut i geisio cymorth

Mae rhywfaint o waith wedi'i wneud i gael gwybod gan blant sut y gellir eu hannog i ofyn am gymorth gan oedolion. Er enghraifft, mewn astudiaeth o brofiadau pobl ifanc o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol gan eu rhieni, cafwyd bod pobl ifanc yn dymuno cysylltu ag oedolion, fel athrawon, er enghraifft, i gael cymorth ond eu bod yn pryderu y byddai gormod o ymyrraeth yn eu bywyd gartref.[37] Ar y llaw arall, mewn ymchwil i farn plant am newid yn eu teuluoedd cafwyd hefyd mai dim ond dau y cant o blant a oedd wedi siarad â chwnselydd a dau y cant ag athro yn yr wythnosau cyntaf wedi i'w rhieni wahanu.[38] Mewn astudiaeth arall, cafwyd bod ffrindiau'n bwysig iawn fel ffynhonnell cymorth, yn enwedig ymysg merched. Pan holwyd nhw am asiantaethau cymorth, roedd pobl ifanc yn credu y byddent yn defnyddio llinellau cymorth neu athro cynghori, ond roeddent yn amharod i ddefnyddio asiantaethau ffurfiol. Nid oedd ganddynt syniad pendant o gwbl ynghylch sut y byddai rhywun yn cael mynediad at wasanaethau a theimlent y byddai meddygon teulu'n rhy brysur i wrando. Credwyd na fyddai athrawon a nyrsys ysgol ar gael. Roedd cyfrinachedd ac ymddiriedaeth yn neilltuol o bwysig i bobl ifanc.[39] Mae angen mwy o waith i ddarganfod y ffyrdd uniongyrchol gorau iddynt wneud hyn. Mae holiaduron hwylus i blant ar gael ar gyfrifiaduron yn ogystal â llinellau cymorth cyfrinachol. Mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd i ddatrys y broblem o ddiffyg ymddiriedaeth gan blant mewn oedolion sydd mewn awdurdod a'u hofn o'r canlyniadau i'w teulu os byddant yn siarad â nhw'n gyfrinachol. Mae angen mwy o ymchwil i weld beth sy'n helpu plant i siarad yn fwyaf rhwydd am eu sefyllfa.

adolygu graddau esgeuluso plant yn y DU a'r ymateb iddo

Mae taer angen cael gwybod am raddau a difrifoldeb yr esgeuluso ar blant fel y gellir monitro'r sefyllfa gyfnewidiol y mae plant a esgeuluswyd ynddi yn y DU. Mae angen llenwi'r bylchau mewn gwybodaeth am esgeuluso plant. Ar hyn o bryd, mae Gweithredu dros Blant, mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ym Mhrifysgol Stirling, yn cynnal adolygiad ledled y DU i gasglu tystiolaeth am raddau esgeuluso a sut mae gwasanaethau'n ymateb iddo. Yn ystod y misoedd nesaf, cynhelir arolwg ymysg awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon i geisio darganfod sut y cesglir ystadegau am blant a esgeuluswyd, y nifer ohonynt sydd ym mhob ardal ac a yw gwasanaethau i'w helpu'n ddigonol. Rydym hefyd yn ceisio casglu ystadegau am esgeuluso plant o bob rhan o Ewrop, ac ar draws y byd lle mae modd. Y nod yw bod mewn lle i gynnal yr adolygiad yn flynyddol er mwyn canfod a yw sefyllfa plant a esgeuluswyd yn gwella neu'n gwaethygu.



Y sefyllfa bresennol

Mae'r dirwasgiad economaidd yn dechrau cael effaith niweidiol ar gyllido ar gyfer gwasanaethau. Yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yn 2010 pennwyd gostyngiad o 28 y cant mewn termau real yng nghyllidebau awdurdodau lleol dros y pedair blynedd nesaf. Yr ofn yw y bydd y gostyngiadau hyn yn tanseilio gallu cynghorau i dalu am wasanaethau ymyrryd cynnar a chymorth dwys wedi'u targedu ar gyfer teuluoedd. Ar ben hyn, roedd cynnydd o 27 y cant yn nifer yr atgyfeiriadau Plant mewn Angen at awdurdodau lleol rhwng 2007 a 2010, a oedd yn amlygu'r posibilrwydd o gael 'ergyd ddwbl' o alw cynyddol a chyllidebau llai o lawer. Yn yr un modd, wrth i ddiweithdra gynyddu a swyddi gael eu colli, mae straen ariannol cynyddol ar deuluoedd unigol, a allai gael effaith negyddol mewn rhai achosion ar ofal plant.

Mae'n bwysig sicrhau na fydd yr hinsawdd economaidd anodd bresennol yn tynnu ein sylw oddi wrth gynyddu ein dealltwriaeth o esgeuluso plant ac ymateb iddo'n amserol.
Mae angen hefyd i ni sicrhau bod pobl yn gwybod i ble y dylent fynd os ydynt yn pryderu am blentyn a'u bod yn teimlo y bydd y camau a gymerant yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r plentyn hwnnw. Yn fwy nag erioed efallai, mae angen neilltuo adnoddau digonol i helpu teuluoedd a phlant sydd mewn angen, gan ychwanegu at ein gwybodaeth bresennol a defnyddio rhaglenni newydd ac arloesol i roi cymorth. Mae'n bwysig sicrhau na fydd cymorth yn cael ei wrthod i fwy o deuluoedd sy'n troi at wasanaethau cymdeithasol o ganlyniad i'r toriadau mewn gwasanaethau,
gan fod ymchwil wedi dangos bod hynny'n digwydd i gymaint ag un rhan o dair o'r teuluoedd mewn rhai ardaloedd.[40]

Yn ogystal â'r effaith ar blant unigol, bydd canlyniadau pellgyrhaeddol i gymdeithas o safbwynt economaidd, cymdeithasol ac iechyd os na fydd esgeuluso ar blant yn cael ei leihau i'r graddau mwyaf posibl. Rhaid i ni ddal i ddod o hyd i ffyrdd i helpu rhieni i ofalu am eu plant fel na fydd esgeuluso bellach yn fater sy'n niweidio ein cymdeithas.

Rydym yn gwybod mwy nag erioed bellach am achosion, canlyniadau a chostau esgeuluso. Rydym hefyd yn gwybod ei bod yn bosibl atal esgeuluso ar blant. O wybod hyn, rhaid i ni gymryd camau i fabwysiadu system lle mae plant ag anghenion sydd heb eu diwallu'n cael sylw, gwrandawiad a chymorth. Bydd gwneud hynny'n cymryd amser ac ymroddiad mawr.

'Yn y pen draw, mae'r hyn y mae ar blant ei angen yn ddigon syml: digon o fwyd, cynhesrwydd, oedolion sy'n eu caru a'u meithrin, cysondeb, cyflawniadau a chael eu trin gydag urddas sy'n gweddu i'w statws fel plant sy'n ddinasyddion.'[41]

Ni ddylai hyn fod yn ormod i blant ei ddisgwyl, nag i oedolion ei ddarparu

Ôl-nodiadau

[1] Flouri E (2005) *Fathering & Child Outcomes*, Chichester, West Sussex; Pleck JH and Masciadrelli BP (2004) 'Paternal Involvement by U.S. residential fathers: levels, sources and consequences' in Lamb ME (ed.) *The Role of the Father in Child Development,* (4th ed.) Hoboken NJ

[2] Barnes M, Bryson C and Smith R (2006) *Working atypical hours, what happens to family life?*, National Centre for Social Research

[3] *Children's Centres' outreach is working* (2010)

[4] The effectiveness of public health campaigns (2004) Health Development Agency

[5] The effectiveness of public health campaigns (2004) Health Development Agency

[6] The effectiveness of public health campaigns (2004) Health Development Agency

[7] Turney D 'Who Cares? The Role of Mothers in Cases of Child Neglect' (2005) in Taylor J and Daniel B (eds.) *Child Neglect: Practice Issues for Health and Social Care*, London: Jessica Kingsley

[8] Moran P (2009) *Neglect: Evidence to Inform Practice*, Action for Children briefing, London: Action for Children

[9] Department for Education (2010) Children in Need statistics, Scottish Government (2010) children's social work statistics, Data Unit Wales (2010), Department of Health, Social Services and Public Safety (2010)

[10] Department for Education statistical release 2011

[11] NSPCC child protection register UK statistics 2011

[12] *Child neglect: experiences from the frontline* (2009) Action for Children briefing, London: Action for Children

[13] ICM survey for Action for Children (2009)

[14] Rose S and Selwyn J (2000) 'Child neglect: An English Perspective' in *International Social Work*, vol. 32, pp. 179–192

[15] *Seen and now heard: taking action on child neglect* (2010) Action for Children briefing, London: Action for Children

[16] Daniel B, Taylor J and Scott J (2009) *Noticing and Helping the Neglected Child*, London: DCSF

[17] Buckley H (2005) 'Neglect: No Monopoly on Expertise' in Taylor J and Daniel B (eds.) *Neglect: Practice issues for Health and Social Care*, London: Jessica Kingsley

[18] *Grasping the Nettle: Early Intervention for Children, Families and Communities* (2010) London: C4EO

[19] Statham J and Smith M (2010) *Issues in Earlier Intervention: Identifying and Supporting Children with Additional Needs*, London: DCSF

[20] Howarth J (2007) *Child Neglect: Identification and Assessment*, London: Palgrave Macmillan

[21] Hicks L and Stein M (2010) *Neglect Matters: A multi-agency guide for professionals working together on behalf of teenagers*, London: DCSF

[22] E*arly Intervention: The Next Steps* (2011) HMSO: London

[23] Daniel B, Taylor J and Scott J (forthcoming) *Noticing and Helping the Neglected Child*, London: Jessica Kingsley

[24] For example 'Every Child Matters' and 'Getting it Right for Every Child'; motivation to change assessment

[25] Barnes M, Bryson C and Smith R (2006) *Working atypical hours, what happens to family life?*, National Centre for Social Research

[26] Flouri E (2005) *Fathering & Child Outcomes*, Chichester, West Sussex; Pleck JH and Masciadrelli BP (2004) 'Paternal Involvement by U.S. residential fathers: levels, sources and consequences' in Lamb ME (ed.) *The Role of the Father in Child Development,* (4th ed.) Hoboken NJ

[27] Ewart S (2003) *An Investigation into the Involvement of Fathers in Family Centre Social Work in Northern Ireland*, Ulster: University of Ulster, Magee

[28] *Children's Centres' outreach is working* (2010)

[29] Moran P (2009) *Neglect: Evidence to Inform Practice*, Action for Children briefing, London: Action for Children

[30] Barlow J and Scott J (2010) *Safeguarding in the 21st century: where to now*, Research in Practice

[31] The effectiveness of public health campaigns (2004) Health Development Agency

[32] Ibid.

[33] Scott D and Taylor J (2010) *Towards a public health approach in protecting and nurturing children: From metaphor to method* [conference report], ISPCAN XVIII International Conference, Honolulu, Hawaii

[34] Buckley H (2005) 'Neglect. No Monopoly on Expertise' in Taylor J and Daniel B (eds.) *Child Neglect: Practical Issues for Health and Social Care*, London: Jessica Kingsley

[35] Tunstill J and Aldgate J (2000) *Services for Children in Need: From Policy to Practice*, London: The Stationery Office

[36] Daniel B, Taylor J and Scott, J (forthcoming) *Noticing and Helping the Neglected Child*, London: Jessica Kingsley

[37] Bancroft A, Wilson S, Cunningham-Burley S, Backett-Milburn K and Masters H (2004) *Parental Drug and Alcohol Misuse: Resilience and Transition among Young People*, York: Joseph Rowntree Foundation

[38] Dunn J and Deater-Deckard K (2001) *Children's Views of Their Changing Families*, York: Joseph Rowntree Foundation

[39] Hallet C, Murray C and Punch S (2003) 'Young people and welfare: negotiating pathways' in Hallet C and Prout A (eds.) *Hearing the Voices of Children: Social Policy for a New Century*, London and New York: Routledge Falmer

[40] Tunstill J and Aldgate J (2000) *Services for Children in Need: From Policy to Practice*, London: The Stationery Office

[41] Aldgate J and Statham J (2001) *The Children Act Now: Messages from Research*, London: The Stationery Office

Gweithredu dros Blant
3 The Boulevard
Ascot Road
Watford WD18 8AG

Ffôn: 0300 123 2112

Mae Gweithredu dros Blant wedi ymrwymo i helpu'r plant a phobl ifanc a esgeuluswyd fwyaf ac sy'n fwyaf agored i niwed yn y DU i drechu anghyfiawnder, amddifadedd ac anghydraddoldeb, fel y gallant wireddu eu potensial yn llawn.

actionforchildren.org.uk

actionforchildren

aslongasittakes

actionforchildrenuk

Cyfrannwch rodd yn: my.actionforchildren.org.uk

UNIVERSITY OF STIRLING

as long as it takes

Rhifau elusen gofrestredig 1097940/SC038092/rhif cwmni 4764232
Cynhyrchwyd gan Gweithredu dros Blant 02/2010. 10/11 0350